# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)21-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 7 Gorffennaf 2009

**Amser:** 08.30 am

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)20-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 30 Mehefin 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)21-09(p1)**

3.1 Dywedodd y Llywydd y byddai'n gwneud datganiad ar adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

3.2 Nododd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5 pm ddydd Mawrth na dydd Mercher. Dywedodd y Llywydd y byddai'r holl bleidleisiau mewn perthynas â thrafodion Cyfnod 3 o'r Mesur Bwyta'n Iach yn cael eu cynnal yn ystod y ddadl ddydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 7 ac 8 Gorffennaf 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)21-09(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)21-09(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar y protocol gan y Pwyllgor Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 1.13 ar 15 Gorffennaf 2009.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Trefn Busnes**

**Papur ar Gonfensiynau ar gyfer delio â Chynigion y Gwrthbleidiau a Gwelliannau i Gynigion o'r fath - BC(3)21-09(p4)**

4.1 Ar 24 Mawrth 2009, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno, ar sail arbrofol, mecanwaith ar gyfer ymdrin â chynigion a gwelliannau mewn perthynas â dadleuon y gwrthbleidiau. Cytunwyd y byddai'r arbrawf yn cychwyn ar 1 Ebrill 2009 ac y byddai'n rhedeg tan ddiwedd tymor yr haf. Yng nghyfarfod heddiw, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur a oedd yn ceisio barn y Pwyllgor ar lwyddiant yr arbrawf ac a oedd y Pwyllgor yn dymuno parhau â'r weithdrefn. Cytunodd y Pwyllgor i barhau â'r gweithdrefnau presennol a'i fod yn fodlon â'r Confensiynau ac nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog.

**5.Deddfwriaeth**

**Papur gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth: - Mesur Arfaethedig Plant a Theuluoedd (Cymru) -trafodion Cyfnod 2 - BC(3)21-09(p5)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Mesur arfaethedig yn ôl at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2.

5.2 I ddiben trafodion Cyfnod 2, cytunodd y Pwyllgor y byddai'r holl Fesurau arfaethedig, yn y dyfodol, yn cael eu cyfeirio'n ôl yn awtomatig at y Pwyllgor Deddfwriaeth a wnaeth waith craffu Cyfnod 1.

**Papur gan y Gweinidog ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2009 - BC(3)21-09(p6a)**

**Amserlen enghreifftiol - BC(3)21-09(p6b)**

5.3 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2009 at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 gyda 4 Rhagfyr 2009 fel dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.

**Papur gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth: Craffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol: - BC(3)21-09(p7)**

5.4 Yn dilyn cais gan y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin, bu'r Pwyllgor yn ystyried papur ar gasgliadau ac argymhellion Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 ar Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig yr Amgylchedd. Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried a fyddai'n cefnogi argymhelliad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4, sef:

...os caiff Gorchymyn arfaethedig ei gyflwyno i Senedd y DU ar ffurf wahanol i'r hyn y craffwyd arno'n wreiddiol gan un o bwyllgorau'r Cynulliad, y dylai Gweinidogion Cymru osod y fersiwn ddiwygiedig gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar yr un pryd. **[paragraff 91].**

5.5 Dywedodd y Pwyllgor Busnes bod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i'r mater a gofynnodd am i bapur pellach gael ei gyflwyno maes o law.

5.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ofyn i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ymchwilio i oblygiadau'r newidiadau yn nhrefn eithriadau yn Atodlen 5 i "Deddf Llywodraeth Cymru 2006", yn enwedig mewn perthynas â phwyllgorau deddfwriaeth yn craffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn y dyfodol.

**Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar Is-ddeddfwriaeth a Phwerau Dirprwyedig - BC(3)21-09(p8)**

5.7 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur a oedd yn mynd i'r afael â'r camau a'r argymhellion yn adroddiad terfynol ymchwiliad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth i'r gwaith craffu ar Is-ddeddfwriaeth a Phwerau Dirprwyedig.

Nododd y Pwyllgor Busnes y sefyllfa ynghylch gallu'r Pwyllgor i graffu ar offerynnau statudol drafft, Mesurau drafft a Gorchmynion Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol ;

Ystyriodd y cais i adolygu enw'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth i adlewyrchu ei gylch gwaith ehangach;

Cytunodd ar bapur mwy manwl a Rheol Sefydlog ddrafft mewn perthynas â dod â gweithdrefn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Pwyllgor Busnes.

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth: Craffu ar Ddeddfwriaeth - Amserlen - BC(3)21-09(p9)**

5.8 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ynghylch yr amserlenni ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth. Cytunodd y Pwyllgor i ddychwelyd at y mater yn ystod tymor yr hydref. Dywedodd y Llywydd y byddai'n ysgrifennu at y Cadeirydd ac yn pwysleisio y dylai tystion sicrhau eu bod ar gael ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor.

**6. Pwyllgorau**

**Cais gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd i gynnal cyfarfod pwyllgor yn Sioe Frenhinol Cymru**

Cais gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal cyfarfod pwyllgor yn Sioe Frenhinol Cymru - BC(3)21-09(p11)

6.1 Dywedodd y Llywydd bod rhai wedi cysylltu ag ef yn unol â Rheol Sefydlog 10.41 ynghylch y ffaith bod y Pwyllgor Cynaliadwyedd a'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig am gynnal cyfarfodydd ychwanegol yn ystod toriad yr haf. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r ceisiadau am i'r pwyllgorau gynnal cyfarfodydd yn Sioe Frenhinol Cymru ddydd Mawrth 21 Gorffennaf.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**